| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Ymateb Rheolwyr i Adolygiad Annibynnol (Adolygiad ynghylch Rheoli Caffael a Chontractau) |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | PFIGC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 30 Ebrill 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn cynnig Ymateb y Rheolwyr i'r Adolygiad Annibynnol ynghylch Rheoli Contractau a Chaffael i'r Pwyllgor, a nodwyd ym Mharth Llywodraethu a Rheoli Ariannol y Fframwaith Mesurau Arbennig.<br><br>Yng Ngorffennaf 2023, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd, a chytundeb Llywodraeth Cymru, gytuno ar gwmpas yr adolygiad er mwyn darparu:<br><br>○ Asesiad o ddigonolrwydd a chydymffurfiaeth â fframwaith rheoli contract a chaffael y Bwrdd Iechyd (yn ymwneud â gwariant refeniw a chyfalaf).<br><br>○ Adroddiad a gomisiynwyd oddi wrth Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP), er mwyn amlinellu'r canfyddiadau, gan ymgorffori:<br>▪ Sicrwydd, os yn briodol, ynghylch y trefniadau a'r mesurau rheoli presennol sydd ar waith.<br>▪ Nodi meysydd ble ceir arferion da.<br>▪ Nodi meysydd sy'n wendidau neu ble mae angen gwelliannau, ac argymhellion cysylltiedig.<br><br>Cychwynnodd y gwaith maes ar 4 Medi a rhannwyd adroddiad drafft ar 31 Hydref 2023. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 29 Ionawr 2024.<br><br>Canfu'r adroddiad sawl maes oedd yn peri pryder a sawl diffyg cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) mewn perthynas â chontractau a chaffael.<br><br>Fe wnaeth yr adroddiad ddatblygu 24 cam gweithredu i'w hystyried gan y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Caffael NWSSP a Llywodraeth Cymru. Dyma oedd y themâu allweddol:<br><br>• Polisi, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer staff ynghylch rheoli caffael a chontractau, a diweddaru gweithdrefnau cyllid cyffredinol.<br>• Dylai rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a rhai Caffael NWSSP fod yn eglur, a dylid gwella'r broses adrodd ac uwchgyfeirio yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn dod i wybod yn gynnar am faterion yn ymwneud â chaffael.<br>• Sicrhau y caiff contractau eu cymeradwyo a'u llofnodi, yn unol â'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD). |

| | |
|---|---|
| | • Dogfennau hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff cymorth sy'n gyfrifol am reoli contractau.<br>• Cynnal rhestr benodol o gontractau ledled y Bwrdd Iechyd.<br>• Sicrhau bod system eWaiver yn cydymffurfio â'r SFIs a SoRD, adolygu cyd-ddibyniaeth â'r system e-Financials, a lleihau'r defnydd o hepgoriadau a gyflwynir, i sicrhau gwerth am arian a chystadleuaeth yn y farchnad.<br>• Darparu Hyfforddiant ynghylch Caffael ar gyfer Gweithredwyr a'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael, i sicrhau eu bod yn deall cyfrifoldebau a gofynion yn iawn.<br><br>Lansiwyd ymateb di-oed ar ôl derbyn yr Adroddiad Drafft. Datblygwyd rhaglen waith fanwl gan yr Adran Gyllid a dadansoddwyd camau gweithredu'r adroddiad ymhellach i lunio oddeutu 50 o dasgau, i sicrhau y byddid yn mynd i'r afael â'r manylion lleiaf a fynegwyd yn yr adroddiad. Mae dogfen dracio yn cynnwys manylion yr holl gynnydd hyd yn hyn wedi'i defnyddio i anfon adroddiadau rheolaidd at Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG (Tîm Cyllid) a thrafodwyd y ddogfen yng Nghyfarfodydd y Mesurau Arbennig ynghylch Cyllid.<br><br>Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd o ran mynd i'r afael â'r anawsterau a godwyd ac mae hynny wedi digwydd gan gydweithredu'n llawn â Thimau Caffael NWSSP. Meysydd allweddol:<br><br>▪ Cafodd SFIs a SoRD diwygiedig eu cymeradwyo gan y bwrdd yn Nhachwedd 2023, a chyhoeddwyd hynny ar y wefan a hysbyswyd y staff am hynny.<br>▪ Mae Dogfennau a Chanllawiau ategol ynghylch Caffael, yn cynnwys y Llawlyfr ar gyfer Rheolwyr Cyllidebau, wedi'u diwygio'n llawn er mwyn cynorthwyo staff yn well ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r SFIs a'r SoRD.<br>▪ Rhaglen Hyfforddiant gynhwysfawr, yn cwmpasu Caffael, Archebion Oracle, Llywodraethu a Chyllid wedi'i darparu ar gyfer staff perthnasol (gan gynnwys y Gweithredwyr), ac o hyn ymlaen, bydd rhaglen dreigl yn cael ei chynnig i Staff Uwch Adrannau.<br>▪ Mae'r system eWaiver wedi'i hadolygu'n llawn ac wedi ei chryfhau ac mae bellach yn cydymffurfio â'r SFIs a'r SoRD.<br>▪ Bydd Adroddiad Sicrwydd Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yng Ngorffennaf, gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael NWSSP.<br>▪ Mae Adroddiad Cydymffurfiaeth manwl iawn bellach yn cael ei gyflwyno'r rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.<br>▪ Mae Tîm Cyllid (â chymorth cydweithwyr Gwasanaeth Caffael NWSSP) wedi cynllunio i gynnal rhaglen o gyfarfodydd gydag Arweinwyr Uwch Adrannau i sicrhau bod gofynion yn ymwneud â'r Gofrestr Contractau Lleol yn eu lle ac yn diwallu anghenion y sefydliad ac yn sicrhau cydymffurfiaeth ac y rheolir contractau yn rhagweithiol. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Pwyllgor nodi Ymatebion y Rheolwyr a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r anawsterau a godwyd yn yr Adolygiad Annibynnol ynghylch Contractau a Chaffael. |

<table>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Andrea J Hughes, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro - Gweithrediadau</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br><br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☒</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am Sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br><br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☒<br><br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br><br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br><br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:<br><br>Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cofrestrau contractau lleol a manteisio'n llawn ar y defnydd o Wasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau y cedwir at reolau caffael ac er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig</td></tr>
<tr><td colspan="2">Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:<br><br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Nid yw'n berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br><br>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</td><td colspan="3">Nid yw'n berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br><br>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</td><td colspan="3">Nid yw'n berthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)</td><td colspan="3">Nid yw'n berthnasol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r** ***argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Nid yw'n berthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Camau Nesaf:**<br>Gweithredu argymhellion<br>***Camau Nesaf/Next Steps:***<br>Rhoi'r argymhellion ar waith | |

## Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth

## 30 Ebrill 2024

## Adolygiad Annibynnol o dan y Mesurau Arbennig - Ymateb gan Reolwyr

### Adolygiad ynghylch Caffael a Chontractau

### 1) Cefndir a chyd-destun

Yn y Maes Llywodraethu a Rheoli Ariannol, nodwyd bod angen adolygiad ynghylch rheoli contractau a chaffael.

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru (y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gytuno y dylid cynnwys y canlynol yng nghwmpas yr adolygiad annibynnol:

Asesiad o ddiogonolrwydd â chydymffurfiaeth â fframwaith rheoli contract a chaffael y Bwrdd Iechyd (yn ymwneud â gwariant refeniw a chyfalaf).

Adroddiad yn amlinellu canfyddiadau, gan gynnwys:

- Sicrwydd, os yn briodol, ynghylch y trefniadau a'r mesurau rheoli presennol sydd ar waith.
- Nodi meysydd ble ceir arferion da.
- Nodi meysydd sy'n wendidau neu ble mae angen gwelliannau, ac argymhellion cysylltiedig.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ymgymryd â'r adolygiad yn unol â'r cwmpas cytunedig.

Cychwynnodd y gwaith maes ar 4 Medi a rhannwyd adroddiad drafft ar 31 Hydref 2023. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ar 29 Ionawr 2024.

Canfu'r adroddiad sawl maes oedd yn peri pryder a sawl diffyg cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) mewn perthynas â chontractau a chaffael.

Dyma'r canfyddiadau allweddol fel y mynegwyd hwy gan Wasanaeth Archwilio a Sicrwydd NWSSP:

- Yng Ngwasanaethau Caffael NWSSP, ceir gweithdrefnau gweithredu manwl sy'n amlinellu'r broses caffael. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw bolisi, gweithdrefn na chanllawiau ar gyfer staff ynghylch caffael a rheoli contractau, ac nid yw gweithdrefnau cyllid cyffredinol yn gyfoes ac mae angen eu hadolygu'n ddi-oed.
- Mae rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd a rhai NWSPP yn eglur, ond mae lle i wella'r broses adrodd ac uwchgyfeirio yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau y ceir sicrwydd digonol gan NWSPP, a bod y Bwrdd Iechyd yn dod i wybod yn fuan am anawsterau yn ymwneud â chaffael.
- Fe wnaeth adolygiad manwl o gontractau amlygu rhywfaint o ddiffyg cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd ynghylch cymeradwyo a llofnodi contractau yn briodol.

- Mae dulliau rheoli contractau yn anghyson yn y Bwrdd Iechyd, ac ni ddarperir unrhyw gyfarwyddiadau na chanllawiau i'r staff sy'n gyfrifol am reoli contractau.
- Nid oes unrhyw restr benodol o gontractau ledled y Bwrdd Iechyd, ac mae'r wybodaeth a geir gan wasanaethau yn anghyflawn ac anghyson.
- Nid yw'r system eWaiver (a ddefnyddir i ofyn am a chymeradwyo hepgoriadau ar gyfer tendrau a dyfynbrisiau unigol) yn sicrhau cydymffurfiaeth a'r SFIs, oherwydd nid oes unrhyw gyd-ddibynniaeth rhwng y system honno a'r system e-Financial, ac nid oen angen cymeradwyaeth ar y lefel briodol yn achos hepgoriadau sy'n werth mwy na £25,000. Mae dadansoddi data eWaiver wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd yn eithriad sylweddol o ran nifer a gwerth yr hepgoriadau a gyflwynir, ac mae hynny'n amlygu pryderon ynghylch gwerth am arian a chystadleuaeth yn y farchnad.
- Nid oes unrhyw hyfforddiant ynghylch caffael wedi'i ddarparu i'r Gweithredwyr a'r holl staff sy'n ymwneud â chaffael i sicrhau dirnadaeth lawn o'r cyfrifoldebau a'r gofynion, er gwaethaf yr argymhellion blaenorol gan E&Y a'r archwilwyr ariannol.
- Mae Gwasanaethau Caffael NWSSP yn cynnal blaengynllun gwaith ynghylch meysydd y bydd arnynt angen contractau yn y dyfodol ar sail contractau sydd yn eu lle ar hyn o bryd a cheisiadau am hepgoriadau i sicrhau y neilltuir digon o amser i gynllunio gofynion, cystadleuaeth, dyfynbrisiau ac ati. Ni wnaethom ganfod unrhyw dystiolaeth o arferion tebyg yn achos y contractau a reolir yn uniongyrchol gan staff y Bwrdd Iechyd ac nas cofnodir ar y gofrestr eCM.

Fe wnaeth yr adroddiad ddatblygu pedwar ar hugain (24) cam gweithredu i'w hystyried gan y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Caffael NWSSP a Llywodraeth Cymru.

Lansiwyd ymateb di-oed ar ôl derbyn yr Adroddiad Drafft. Datblygwyd rhaglen waith fanwl gan yr Adran Gyllid a dadansoddwyd camau gweithredu'r adroddiad ymhellach i lunio oddeutu 50 o dasgau, i sicrhau y byddid yn mynd i'r afael â'r manylion lleiaf a fynegwyd yn yr adroddiad. Cynhaliwyd dogfen dracio fanwl i olrhain yr holl gamau a gymerwyd, ac anfonwyd adroddiadau rheolaidd ynghylch hynny at Lywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG (Tîm Cyllid) a thrafodwyd y ddogfen yng Nghyfarfodydd y Mesurau Arbennig ynghylch Cyllid bob pythefnos. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 5 o blith y 24 cam gweithredu yn dal yn mynd rhagddynt:

- 2 Bwrdd Iechyd - Cysylltiedig â Chofrestrau Contractau ac Adolygiadau ynghylch Gweithdrefnau Ariannol
- 2 NWSSP - Cysylltiedig â Chanllawiau Diweddaredig ynghylch Caffael ac Adroddiad Sicrhau Ansawdd
- 1 LlC - Cysylltiedig ag adolygiadau o gyfyngiadau Hepgoriadau ynghylch Un Dyfynbris/Tender

## 2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Yn ystod y sesiwn ddatblygu flaenorol, adolygwyd canfyddiadau'r Archwiliad Mewnol yn dilyn comisiwn i adolygu contractau a chaffael, a chymeradwywyd y fanyleb trwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru.

Mae'r canfyddiadau a adroddwyd yn y cyfarfod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r camau a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd, gan nodi bod y cynllun gweithredu yn cynnig tystiolaeth ynghylch nifer o elfennau sydd eisoes wedi'u cwblhau, yn deillio i raddau helaeth o gyflawni camau gweithredu cyn cael manylion canfyddiadau'r Archwilwyr Mewnol (ni wnaeth y rheolwyr ddisgwyl cael yr adroddiad cyn gweithredu gwelliannau yn yr amgylchedd rheoli).

Fel y cytunwyd yn ystod y sesiwn, mae'r adroddiad hwn felly yn cynnig tystiolaeth ynghylch (a) yr argymhellion (b) y camau a gymerwyd gan reolwyr a (c) y camau hynny sy'n dal yn mynd rhagddynt.

Nodir y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio (y Pwyllgor sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethu) i gynnig sicrwydd. Gall y camau y nodwyd eu bod wedi eu cwblhau gael eu cadarnhau gan yr Archwilwyr Mewnol, a hefyd i barhau i gynnig trosolwg o'r cyflawni o fewn yr amserlenni a nodir isod ar gyfer unrhyw gamau gweithredu nad yw rheolwyr wedi'u gweithredu eto (Gweler tabl 1 - Cynllun Gweithredu Ymateb Rheolwyr).

## 3) Themâu Allweddol o'r Adolygiad

| Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn | Perthnasol i'r adolygiad hwn<br>*Ticiwch y blwch os yw'n berthnasol* |
|---|---|
| **1. Data, Hysbysrwydd a Dirnadaeth**<br>Sicrhau y ceir dull gweithredu ledled y sefydliad ag ymyriadau wedi'u blaenoriaethu i wella ein hofferynnau a'n galluoedd mewn perthynas â data, hysbysrwydd a dirnadaeth. Bydd hyn yn alluogwr allweddol er mwyn sicrhau gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â chynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol. | ☐ |
| **2. Diwylliant**<br>Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Wedi'i integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ym meysydd Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu. | ☐ |
| **3. Rheoli Risg**<br>Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n harchwaeth risg, gan gynnwys sut caiff risgiau'n eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, sut yr adroddir yn eu cylch a sut y cânt eu monitro. | ☐ |
| **4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr**<br>Un dull cydgysylltiedig i allu manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ymgysylltu â'n cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr a'u cynnwys, gan ddefnyddio eu profiadau i lywio ein gwaith sy'n mynd rhagddo i wella gwasanaethau. | ☐ |
| **5. Model gweithredu**<br>Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn y ffordd orau, gan sicrhau bod pawb ar bob lefel yn y sefydliad yn deall rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau mewn uwch adrannau ac mewn gwasanaethau sy'n cwmpasu ardal gyfan y Bwrdd. | ☐ |

| | |
|---|---|
| **6. Llywodraethu Sefydliadol a Chydymffurfiaeth**<br>Sicrhau bod llywodraethu arferion gorau yn amlwg ledled y sefydliad a bod pobl ledled y sefydliad yn deall hynny, a sicrhau y cydymffurfir â hynny. | ☒ |
| **7. Cynllunio Integredig**<br>Agwedd integredig sy'n cael ei hamgyffred yn dda at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol. | ☐ |

## 4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

## Tabl 1: Cynllun Gweithredu Ymateb y Rheolwyr

### Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad


| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1** | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddeall pam na wnaeth y pedwar gwasanaeth hyn ymateb erbyn y terfyn amser a bennwyd. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Gan ymateb ymhen 5 diwrnod, cynnal adolygiadau yn y 5 maes a amlygwyd gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod mis Medi.<br><br>Gan ystyried y rhybudd prin a'r ffaith nad oedd rhai o'r arweinwyr ar gael yn ystod y cyfnod, ni allai'r meysydd gynnig ymateb o fewn yr amserlen a bennwyd.<br><br>Cysylltwyd â'r Archwilwyr Mewnol a ddywedodd na fyddai modd caniatáu estyniad i'r terfyn amser ac na fyddai unrhyw ymateb a gafwyd wedi'r dyddiad a bennwyd yn cael ei adolygu. Fe wnaeth un o'r Uwch Adrannau gyflwyno ymateb cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau, ond ar ôl holi, dywedodd yr Archwilwyr Mewnol na fyddai unrhyw beth oedd wedi'i dderbyn ar ôl y terfyn amser yn cael ei adolygu. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG**[1] | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| **Cam Gweithredu 2** | Dylai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sicrhau bod y gweithdrefnau ariannol presennol yn cael eu hadolygu'n ddi-oed ac yr ymgymerir ag adolygiad llawn o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) er mwyn nodi bylchau yn y gweithdrefnau sydd wedi'u cyhoeddi er mwyn cynnig arweiniad/cyfarwyddiadau i'r Bwrdd Iechyd ynghylch cydymffurfio â'r SFIs. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | **<u>Elfen 1 = Adolygiad Llawn o'r SFIs</u>**<br>Ymgymerwyd ag adolygiad llawn o SFIs Model 2023 ac ar ôl i'r Bwrdd eu cymeradwyo, mabwysiadwyd y rhain ar 30 Tachwedd 2023. Mae SFIs 2023 ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.<br><br>**<u>Elfen 2 = Gweithdrefnau Ariannol Cyhoeddedig (gweler Cam Gweithredu 10 i weld manylion yr elfen sy'n dal yn mynd rhagddi)</u>**<br>Mae amserlen flynyddol wedi'i llunio yn cynnwys dyddiadau targed at ddibenion cwblhau adolygiadau o weithdrefnau cyllid presennol gan ymgorffori amserlen ar gyfer ymgynghori yn unol â Pholisi'r Bwrdd Iechyd ynghylch Polisïau. Ar y trywydd iawn i gwblhau'r gweithdrefnau hynny a bennwyd i'w hadolygu yn ystod Ch1 2024/25. |
| **Cam Gweithredu 3** | Gwasanaethau Caffael NWSSP a'r Bwrdd Iechyd: Caiff cynnwys 'e-Lawlyfr Caffael i Dalu Cymru Gyfan i'w ddefnyddio gan Sefydliadau Iechyd' ei adolygu a'i ddiweddaru pan fo angen gwneud hynny ac mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn cydweithio â'r | Y Bwrdd Iechyd a NWSSP | Cwblhawyd | | Mae 'e-Lawlyfr Caffael i Dalu Cymru Gyfan' wedi'i adolygu ac ystyrir ei fod yn cyd-fynd â'r SFIs presennol. Bellach, gall staff gyrchu'r llawlyfr ar y fewnrwyd (BetsiNet). Mae'r Llawlyfr Rheolwyr Cyllidebau wedi'i ddiweddaru'n llawn ac mae ar gael ar BetsiNet. Mae'r Bwletin Wythnosol wedi'i ddefnyddio i roi gwybod bod llawlyfrau a chanllawiau diwygiedig ar gael. Mae rhaglen dreigl o sesiynau Hyfforddiant Caffael a ddarperir ar y cyd gan Dîm Caffael NWSSP a Staff Cyllid, ar gyfer Rheolwyr Cyllidebau ac aelodau perthnasol eraill o'r staff, bellach wedi'i sefydlu. |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Iechyd i ddwyn sylw ato. | | | | |
| **Cam Gweithredu 4** | Manylu ar y camau a gymerwyd / camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhellion penodol a nodir yn adroddiad Ernst & Young. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Mae llawer o'r argymhellion o adroddiad E&Y wedi'u cynnwys fel camau gweithredu ar wahân yn yr adolygiad hwn. Mae'r SFIs a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD) wedi'u hadolygu a'u diweddaru ac fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r fersiynau diwygiedig ym mis Tachwedd 2023. Mae rhaglen dreigl o sesiynau hyfforddi bellach yn cael ei chyflwyno i aelodau perthnasol o'r staff ynghylch gofynion y SFIs a SoRD yn ogystal â hyfforddiant ynghylch caffael sy'n cael ei ddarparu gan NWSSP. Mae dogfennau arweiniad gan gynnwys Llawlyfr y Rheolwyr Cyllidebau wedi'u hadolygu a'u diweddaru ac mae rheolaethau mewnol ychwanegol wedi'u cynnwys ynghylch meysydd sy'n cynnwys llofnodi contractau a hepgoriadau tendrau unigol. |
| **Cam Gweithredu 5** | Cwblheir adolygiad brys o'r system eWaiver er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni gofynion llawn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac yn rhyngweithio â'r System e-Financials ac | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Fe wnaeth FinanceSoft lansio system hepgoriadau newydd ym mis Rhagfyr 2023, ar ôl cyfnod o brofi gan ddefnyddwyr. Cafodd y system ei gweithredu'n llawn ym mis Chwefror 2024.<br><br>Y meysydd allweddol sydd wedi'u gwella yw cydymffurfiaeth â'r terfynau dirprwyedig a gynhwysir yn y |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | mae'n rheolaeth allweddol i gadarnhau cymeradwyo/gwrthod hepgoriadau cyn cymeradwyo a gweithredu unrhyw geisiadau neu archebion prynu. | | | | Cynllun Cadw a Dirprwyo, gwell amlygrwydd hepgoriadau parhaus (o flwyddyn i flwyddyn); mwy o ffocws ar geisiadau ôl-weithredol; nodiadau atgoffa awtomataidd os bernir bod angen cymryd camau pellach; ac olrhain gwell sy'n cynorthwyo â'r gwaith o hysbysu'r Pwyllgor Archwilio. Mae sefydliadau eraill GIG Cymru sy'n bwriadu mabwysiadu dull y system ddatblygedig hon wedi cysylltu â'r Bwrdd Iechyd .<br><br>Nid yw'n cael ei ystyried yn ymarferol i integreiddio'r system eWaiver â'r system e-Financials (Oracle) oherwydd y cymhlethdod a'r gost. Mae camau wedi'u cymryd i roi gwybod y caiff yr hepgoriadau'n eu hystyried ar sail eithriadol a'u cyfuno â'r hyfforddiant ynghylch Caffael a'r rheolaethau diweddaredig a weithredir; mae nifer yr hepgoriadau unigol y gofynnir amdanynt ac a gymeradwyir wedi gostwng yn sylweddol.<br><br> |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 6** | Mae'r Prif Weithredwr yn sicrhau y cydymffurfir â gofynion SFI 11.13.5 a bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau prydlon ynghylch hepgoriadau. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Er bod adroddiadau penodol ynghylch Hepgoriadau Tendrau Unigol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2023/24, mae Adroddiad Cydymffurfiaeth wedi'i ddiwygio'n llawn wedi'i ddatblygu a'i lunio ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr 2024, ac mae hynny bellach yn rhan o'r 'Cylch Busnes' parhaus. |
| **Cam Gweithredu 7** | Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau y cydymffurfir bob amser â Rheol Sefydlog 9 – Llofnodi a Selio Dogfennau, yn enwedig Rheol Sefydlog 9.0.1 lle mae'r Bwrdd wedi ystyried "...trafodiad y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd." | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Mae trafodaethau wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd y Bwrdd, ac at y dyfodol, bydd cofnodion y cyfarfodydd yn cynnwys manylion eglur ynghylch cytundeb y Bwrdd a chymeradwyaeth Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd i lofnodi a selio dogfennau, yn unol â'r SoRD. |
| **Cam Gweithredu 8** | Mae'r Prif Weithredwr yn sicrhau bod contractau'n cael eu llofnodi yn unol â Rheol Sefydlog 9.2.2 naill ai gan y Prif Weithredwr neu swyddogion enwebedig y dirprwywyd y cyfrifoldeb hwnnw iddynt gan y Bwrdd. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Yn gysylltiedig â Cham Gweithredu 7 - mae hyn wedi'i drafod ag Ysgrifennydd y Bwrdd, ac at y dyfodol, bydd cofnodion cyfarfodydd yn cynnwys manylion eglur ynghylch cymeradwyaeth a'r camau gweithredu. Dylai'r Prif Weithredwr, neu lofnodwr enwebedig yn unol ag awdurdod dirprwyedig SoRD, lofnodi contractau yn dilyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd. Mae'r rhaglen dreigl o hyfforddiant Caffael yn ymgorffori ymwybyddiaeth o |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | lywodraethu gan gynnwys gofynion SFIs a SoRD yn ymwneud â chymeradwyo a llofnodi contractau. |
| **Cam Gweithredu 9** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD) yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 9 oherwydd fe wnaethom nodi bod SoRD yn dirprwyo cymeradwyo contractau â chyfyngiadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD) wedi'i adolygu a'i ddiweddaru'n llawn a mabwysiadwyd y fersiwn ddiwygiedig (gan gynnwys dirprwyo cymeradwyo llywodraethu i'r Tîm Gweithredol a Phwyllgorau) gan y Bwrdd Iechyd ar 30 Tachwedd 2023 - mae'r cynllun ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ac mae'r holl staff wedi'u hysbysu amdano drwy'r diweddariad yn y Bwletin Wythnosol. |
| **Cam Gweithredu 10** | Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn sicrhau bod Polisïau/Gweithdrefnau Cyllid yn cael eu datblygu ac yn darparu canllawiau manwl a manylion ynghylch disgwyliadau i holl staff y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am gaffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â | Y Bwrdd Iechyd | Yn mynd rhagddo | | Mae amserlen flynyddol wedi'u llunio yn cynnwys dyddiadau targed at ddibenion cwblhau adolygiadau o weithdrefnau cyllid presennol gan ymgorffori amserlen ar gyfer ymgynghori yn unol â Pholisi'r Bwrdd Iechyd ynghylch Polisïau. Ar y trywydd iawn i gwblhau'r gweithdrefnau hynny a bennwyd i'w hadolygu yn ystod Ch1 2024/25.<br><br>Bydd y diweddariadau yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r SFIs a SoRD. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| | Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a rheolaethau disgwyliedig o ran rheoli contractau. | | | | Ar y cyd â Gwasanaeth Caffael NWSSP, mae rhaglen dreigl o sesiynau hyfforddi bellach yn cael ei chyflwyno i aelodau perthnasol o'r staff sy'n ymgorffori gofynion y SFIs a SoRD.<br><br>Mae dogfennau arweiniad gan gynnwys Llawlyfr y Rheolwyr Cyllidebau wedi'u hadolygu a'u diweddaru ac mae rheolaethau mewnol ychwanegol wedi'u cynnwys ynghylch meysydd sy'n cynnwys llofnodi contractau a hepgoriadau tendrau unigol. |
| **Cam Gweithredu 11** | Bwrdd Iechyd: Gan weithio gyda'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, datblygu cofrestr contractau cyfansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y risg o ddatblygu contractau annibynnol yn cael ei lleihau a bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau'r gwerth gorau am arian os gellir cyfuno sawl contract ag un cyflenwr. | Y Bwrdd Iechyd | Yn mynd rhagddo | | Mae hwn yn gam gweithredu y dylai'r Bwrdd Iechyd gydweithio â NWSSP i'w gyflawni.<br><br>Mae NWSSP yn cynnal cofrestr o gontractau yn cynnwys manylion yr holl gontractau y mae'n eu rheoli ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae meysydd eraill o fewn BIPBC, er enghraifft, contractau Gofal Iechyd, yn rheoli eu cofrestrau contractau eu hunain.<br><br>Mae manylion y contractau presennol yn cael eu hadolygu ar raglen dreigl ac mae trafodaethau ag Uwch Adrannau ynghylch cadernid cofrestrau contractau lleol yn rhan o'r rhaglen wella barhaus yn y maes hwn. Gweithio ar y cyd â chydweithwyr yn NWSSP i sicrhau eu bod yn ymwneud cymaint â phosibl â rheoli contractau a chaffael er mwyn |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sicrhau, lle bo'n berthnasol, bod cystadleuaeth yn digwydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac i gyflawni gwerth am arian.<br><br>Mae rheolaethau cryfach (er enghraifft, terfynau dirprwyiedig diwygiedig) a rheoli dulliau rheoli hepgoriadau unigol wedi'u gweithredu. |
| **Cam Gweithredu 12** | Sicrhau bod y Cynllun Dirprwyo yn cael ei gymhwyso'n briodol yn y system e-Financials, a'i fod yn cael ei ddiweddaru i sicrhau ei fod yn cwmpasu strwythur cyfan y sefydliad. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Mae rhaglen dreigl o adolygiadau mewnol yn cael ei chynnal yn yr holl Uwch Adrannau i sicrhau bod y system e-Financial (Oracle) ac ESR yn cydymffurfio â'r SoRD diwygiedig. Dylai uwch staff cyllid sicrhau eu bod yn cynnal a chadw'r system yn rheolaidd ym meysydd eu gwasanaethau o hyn ymlaen. |
| **Cam Gweithredu 13** | Adolygu llwybrau uwchgyfeirio o fewn y Bwrdd Iechyd ar gyfer Pennaeth Caffael. | Y Bwrdd Iechyd a NWSSP | Cwblhawyd | | Ceir polisïau a llwybrau uwchgyfeirio perthnasol ledled NWSSP a BIPBC. |
| **Cam Gweithredu 14** | Fel rhan o'r cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Gyllid a NWSSP, sicrhau bod adroddiadau sy'n ymwneud â manylion e-byst/ffacsiau gwag mewn archebion | Y Bwrdd Iechyd a NWSSP | Cwblhawyd | | Mae hwn yn gam i'w gwblhau ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a NWSSP.<br><br>Llunnir adroddiad gan NWSSP bob mis a gweithredir camau adferol os na fydd y manylion yn gyflawn ar Oracle. |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | prynu yn cael eu hadolygu ac y cymerir camau unioni i fynd i'r afael ag anghysondebau. | | | | Mae hyn bellach yn rhan o gamau 'busnes arferol' y Bwrdd.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd Caffael i Dalu (P2P) rheolaidd rhwng staff Cyllid BIPBC a staff NWSSP sy'n aelodau o dimau taliadau a chaffael. |
| **Cam Gweithredu 15** | Adolygu trefniadau adrodd gyda'r tîm caffael lleol i bennu gofynion at y dyfodol, gan gynnwys adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a mynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwnnw. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Cynhelir cyfarfodydd P2P yn fisol rhwng BIPBC a NWSSP er mwyn adolygu gweithgarwch a materion sy'n peri pryder. Llunnir adroddiadau amrywiol rheolaidd gan NWSSP er mwyn monitro a rheoli meysydd megis lefelau gweithgarwch e-Waiver, Dim Rhif Archeb Dim Talu ac Anfonebau sydd wedi'u Hatal. Ystyrir mai hwn yw'r fforwm perthnasol i ymdrin â materion gweithredol.<br><br>Lluniwyd Adroddiad Cydymffurfiaeth Diwygiedig ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Ionawr. Gwahoddir NWSSP i ddod i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio pan fydd y Cadeirydd yn ystyried bod hynny'n briodol.<br><br>Dylai NWSSP lunio'r Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ynghylch Caffael a chaiff ei gyflwyno i'w adolygu gan y Pwyllgor Archwilio ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG**[1] | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| **Cam Gweithredu 16** | Mae’r Prif Weithredwr yn derbyn diweddariad gan Swyddogion sy’n gyfrifol am hwyluso a darparu hyfforddiant caffael sy’n cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflawni sy’n cwmpasu'r holl swyddi presennol, sut y bydd penodeion newydd yn cael eu hyfforddiant a pha hyfforddiant gloywi a ddarperir a sut e.e. cyflwyno hyfforddiant ar-lein. | Y Bwrdd Iechyd | Cwblhawyd | | Mae amrywiaeth o hyfforddiant wedi'i gynnal:<br>▪ Hyfforddiant Caffael a ddarperir gan NWSSP i'r Tîm Gweithredol ac sydd bellach yn rhan o'r Hyfforddiant Sefydlu Gorfodol.<br>▪ Adran Gyllid - sesiwn Ciniawa a Dysgu ynghylch Caffael ar 22 Tachwedd 23 – oddeutu 50 aelod o staff yr Adran Gyllid yn bresennol.<br>▪ Ledled BIPBC - Cwrs Gloywi Oracle iProcurement ar 23 Hydref 23 a fynychwyd gan oddeutu 400 o bobl (Defnyddwyr Cyfrifon Oracle).<br>▪ Adran Gyllid - sesiwn Ciniawa a Dysgu ar 13 Rhagfyr 23 - yn ymdrin â SFIs/SoRD, Hepgoriadau Unigol, Paratoi Archwiliadau - oddeutu 60 aelod o'r staff yn bresennol.<br>▪ Adran Gyllid – sesiwn Ciniawa a Dysgu ar 24 Mawrth a 27 Mawrth 2024 – ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ar y cyd ag Archwilio Cymru - oddeutu 90 aelod o'r staff yn bresennol.<br>▪ Sesiwn Ciniawa a Dysgu ynghylch Contractau – ar y cyd â NWSSP - 17 Ionawr - oddeutu 70 aelod o'r staff yn bresennol. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| | | | | | ▪ Staff NWSSP a Staff yr Adran Gyllid yn cyflwyno rhaglen dreigl Hyfforddiant ynghylch Caffael a SFIs/SoRD i ddeiliaid cyllidebau (mae dros 100 aelod o'r staff wedi cyfranogi hyd yn hyn).<br>▪ Sesiwn Academi Gyllid y GIG ar 24 Ionawr 2024 – Trafodwyd yr adnoddau hyfforddiant sydd ar gael ac Asesiadau'r Fframwaith Cymhwysedd - mynychodd oddeutu 60 aelod o'r staff.<br>▪ Mae'n ofynnol i'r holl geiswyr a chymeradwywyr **newydd** (rheolwyr cyllidebau) gwblhau hyfforddiant I-Procurement ar adeg sefydlu *(e-bost ar 29.08.23 20:01).*<br>▪ Cynigir hyfforddiant i'r **HOLL** geiswyr trwy gyfrwng Ffurflen Gais Defnyddiwr Newydd Oracle  (office.com) *AR WAITH*;<br>▪ Mae'r Llawlyfr ar gyfer Rheolwyr Cyllidebau bellach wedi'i ddiwygio'n llawn ac mae'n cynnwys dolenni at adnoddau e-ddysgu (cryno). Wedi'i lansio ac ar gael ar BetsiNet. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| **Cam Gweithredu 22** | Mae'r Pennawd Cyflenwr yn nata 'eCM' yn gyson â'r hyn a sefydlwyd yn Oracle e-Financial. | NWSSP | Cwblhawyd | | Mae cofnodi manylion cyflenwyr ar Bravo/eCM yn cael ei reoli gan y cyflenwyr sy'n cofrestru eu manylion pan fyddant yn creu eu cyfrif gwreiddiol ar Bravo ac er bod y system wedi'i sefydlu i'w hysbysu eu bod yn sicrhau bod eu manylion yn gywir ac yn unol â chofnodion swyddogol eu cwmni, nid oes modd gorfodi hyn. Rhoddir sicrwydd, yn y mwyafrif helaeth o achosion, y bydd y cofnod eCM bob amser yn gysylltiedig â chyfrif y cyflenwr a ymatebodd i'r Gwahoddiad i Dendro perthnasol (h.y., caiff eu manylion eu dethol o'r broses dendro pan fydd cofnodion y contract yn cael eu creu yn eCM).<br><br>Ni rennir y cofnodion hyn â chyflenwyr – maent ar gyfer cofnodion mewnol NWSSP yn unig ac fe'u defnyddir i lywio Cynllun Gwaith Contractau NWSSP (yn enwedig cofnodi Camau Tendrau Unigol ar y Gofrestr ECM). |
| **Cam Gweithredu 18** | Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael yn sicrhau bod yr holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau canllaw wedi'u diweddaru yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. | NWSSP | Yn mynd rhagddo | | Dylai canllawiau diweddaredig ar gyfer Gwasanaethau Caffael gael eu cyhoeddi 'yn gynnar yn 2024/25'. Mae Cydwasanaethau Cymru Gyfan yn diweddaru eu DMS (system rheoli dogfennau) ar gyfer gwasanaethau caffael, a disgwylir diweddariad ym mis Mai 2024. |

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | Cam gweithredu | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 19** | Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael yn darparu adroddiad sicrwydd blynyddol i'r Prif Weithredwr, sy'n gyfrifol yn y pen draw am gaffael yn y Bwrdd Iechyd, a chydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, gan gynnwys crynodeb o unrhyw achosion o dramgwyddo'r rheolaethau caffael disgwyliedig. | NWSSP | Yn mynd rhagddo | | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi a chynghori NWSSP y bydd angen cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ar ôl diwedd y flwyddyn (Mai 24). Mae NWSSP wedi cadarnhau y bydd adroddiad yn barod ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf (yn gysylltiedig â'r ffaith fod amseriad papurau Pwyllgor mis Mai yn rhy gynnar). |
| **Cam Gweithredu 20** | Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Caffael yn sicrhau bod GIG Cymru yn barod am unrhyw newidiadau yn y Bil Caffael i'r broses bresennol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i holl Fyrddau GIG Cymru ynghylch unrhyw effeithiau yn deillio o'r | NWSSP | Cwblhawyd | | Mae hwn yn fater Cenedlaethol ac fe wnaeth y Cyfarwyddwr Caffael roi diweddariad i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid PBC. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru anfon Bil Drafft at ddibenion ymgynghori cyn mynd ati i sicrhau Cydsyniad Brenhinol. Disgwylir diweddariad yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Mae'r hyfforddiant eisoes yn cael ei gynllunio, i'w ddarparu i'r holl staff priodol yn sefydliadau GIG Cymru, a bydd effeithiau cysylltiedig newidiadau yn cael eu hymgorffori mewn prosesau a gweithdrefnau. |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| | newid – mae angen cwblhau hyn erbyn adeg benodol. | | | | |
| **Cam Gweithredu 21** | Sicrhau yr archwilir pob cais STW/SQW i sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddyd Ariannol Sefydlog 11.13.3 a'u gwrthod os na fydd y meini prawf wedi'u bodloni. | NWSSP | Cwblhawyd | | Mae NWSSP yn darparu naratif ategol ychwanegol yn y system eWaiver ddiwygiedig gan gynnwys rhesymu ac argymhellion ar gyfer cymeradwyo neu wrthod. |
| **Cam Gweithredu 22** | Darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Iechyd am wasanaethau a ddarperir i Fyrddau / Ymddiriedolaethau Iechyd eraill. | NWSSP | Cwblhawyd | | Mae mwyafrif helaeth y gwasanaethau a ddarperir i Fyrddau Iechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn union yr un fath. Ceir enghreifftiau o Fyrddau Iechyd yn buddsoddi adnoddau ychwanegol mewn meysydd/timau penodol er mwyn darparu cymorth ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:<br>• Mae un Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn swyddog cymorth Band 7 at ddibenion prosiectau Gwaith Adeiladu Cyfalaf |

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf.** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ynghylch Cynnydd** |
| | | | | | • Mae Bwrdd Iechyd arall wedi buddsoddi mewn un swydd Band 6 ac un swydd Band 4 er mwyn cynorthwyo â Phrosiectau TG.<br>• Mae Bwrdd Iechyd wedi darparu tua £190,000 yn rheolaidd at ddibenion cynorthwyo â chaffael er mwyn sicrhau arbedion ychwanegol a chynyddu gweithgarwch a Gomisiynir gan Gyrchu/Gwasanaethau Allanol. |
| **Cam Gweithredu 23** | Ystyrir adolygiad o'r terfyn tendro presennol, tra'n cydnabod y pwysau ariannol a wynebir gan GIG Cymru. | Llywodraeth Cymru | Yn mynd rhagddo | | Mae hwn yn gam gweithredu y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried ac ymateb iddo. |
| **Cam Gweithredu 24** | Ystyried gwella’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i eithrio sefydliadau GIG Cymru rhag cwblhau a chymeradwyo Hepgoriadau yn seiliedig ar amserlenni. | Llywodraeth Cymru | Cwblhawyd | | O safbwynt y Bwrdd Iechyd, nid oes angen unrhyw gamau ychwanegol ar hyn o bryd.  Mae’r adolygiad o SFIs y Byrddau Iechyd a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2023 wedi cryfhau cymal 11.13.4 trwy gynnwys cyfeiriad ychwanegol yn SFI 11.13.4 sy'n nodi  "Nid yw diffyg amser digonol i gwblhau’r broses gaffael yn rheswm derbyniol dros ofyn am Ddyfarnu Dyfynbris/Tender Unigol" |

[1] **Diffiniadau o'r statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd iawn, **Ambr**: Ddim ar y trywydd iawn ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn, **Coch**: Ddim ar y trywydd iawn a heb fesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd iawn